# Small Growers Supplier Standard

*Developed by Farming Connect Horticulture*

Food businesses *(including growers)* are often obliged to meet the requirements of a food safety standard. This is to show that they meet basic food safety requirements to produce safe food. For growers, there are many risks that can easily be controlled to reduce the risk of food outbreaks being linked to their produce.

Farming Connect Horticulture has worked with ML3 Technical Services to devise the Small Growers Supplier Standard. This takes the ethos of the Red Tractor Standard but focuses the requirements around small market gardeners.

Whilst Red Tractor is a recognised standard, it is costly, time-consuming, and onerous for small growers and not suited to market gardeners who grow many different crops.

The Small Growers Supplier Standard has sections on documentation, traceability, risk assessment, farm standards, pest control, crop nutrition, crop growing, irrigation, harvesting, people, health & safety, as well as additional sections for packing areas and non-organic crop production where relevant.

The system has been written by an experienced fresh produce auditor who understands both the requirements of the customer for due diligence and the practicalities of growing produce on a small scale.

For customers who are BRCGS certified, additional supporting documents can be provided to show how the system can be used within the limitations of the BRCGS Supplier Approval clauses.

Support is provided by Farming Connect Horticulture to the growers through food safety training *(specific to growing fresh produce)*, 1 to 1 support, and webinars that are all aimed to reduce the risk of food safety issues with fresh produce.

If you are interested in further information about the Small Growers Supplier Standard, please contact *horticulture@lantra.co.uk*

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

GARDDWRIAETH
HORTICULTURE

*Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn Datblygu*

# Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr ar Raddfa Fach

Yn aml, mae'n ofynnol i fusnesau bwyd *(gan gynnwys tyfwyr)* fodloni gofynion safon diogelwch bwyd. Diben hyn yw dangos eu bod yn bodloni gofynion diogelwch bwyd sylfaenol er mwyn cynhyrchu bwyd diogel. I dyfwyr, mae yna lawer o risgiau y gellir eu rheoli'n hawdd i leihau'r risg y bydd achosion o salwch bwyd yn cael eu cysylltu â'u cynnyrch.

Mae Garddwriaeth Cyswllt Ffermio wedi gweithio gydag ML3 Technical Services i ddyfeisio'r Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr ar Raddfa Fach. Mae'n defnyddio ethos Safon y Tractor Coch ond mae'n canolbwyntio ar y gofynion ar gyfer garddwyr masnachol ar raddfa fach.

Er bod y Tractor Coch yn safon gydnabyddedig, mae'n gostus, yn cymryd llawer o amser, ac yn feichus i dyfwyr bach ac nid yw'n addas ar gyfer garddwyr masnachol sy'n tyfu llawer o gnydau gwahanol.

Mae gan y Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr ar Raddfa Fach adrannau ar ddogfennaeth, y gallu i olrhain, asesu risg, safonau fferm, rheoli plâu, maeth cnydau, tyfu cnydau, dyfrhau, cynaeafu, pobl, iechyd a diogelwch, yn ogystal ag adrannau ychwanegol ar gyfer ardaloedd pacio a chynhyrchu cnydau anorganig lle bo hynny'n berthnasol.

Ysgrifennwyd y system gan archwilydd cynnyrch ffres profiadol sy'n deall gofynion y cwsmer o ran diwydrwydd dyladwy ac ymarferoldeb tyfu cynnyrch ar raddfa fach.

Ar gyfer cwsmeriaid sydd wedi'u hardystio gan BRCGS, gellir darparu dogfennau ategol ychwanegol i ddangos sut y gellir defnyddio'r system o fewn cyfyngiadau cymalau Cymeradwyo Cyflenwyr BRCGS.

Mae Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn rhoi cefnogaeth i'r tyfwyr trwy hyfforddiant diogelwch bwyd *(sy'n benodol i dyfu cynnyrch ffres)*, cefnogaeth 1 i 1, a gweminarau sydd i gyd â'r nod o leihau'r risg o broblemau diogelwch bwyd gyda chynnyrch ffres.

Os oes gennych ddiddordeb mewn rhagor o wybodaeth am y Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr ar Raddfa Fach, cysylltwch â *horticulture@lantra.co.uk*

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

GARDDWRIAETH HORTICULTURE